Cyngor Sir CEREDIGION County Council

ADRODDIAD I'R:	**Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**
DYDDIAD:	**6 Mehefin 2022**
LLEOLIAD:	O bell drwy Fideogynadledda
TEITL:	Ymateb Cyngor Sir Ceredigion i Adroddiadau'r Rheoleiddiwr a'r Arolygiaeth
PWRPAS YR ADRODDIAD:	Rhoi ymateb y Cyngor mewn perthynas ag Adroddiadau'r Rheoleiddiwr a'r Arolygiaeth i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Er:	Penderfyniad
Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:	Cynhgorydd Matthew Vaux, **Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, Pobl a Threfniadaeth a'r Gwasanaethau Democrataidd**

Cyflwyniad

Mae'r Adroddiad hwn yn nodi ymatebion y Cyngor i Adroddiadau'r Rheoleiddiwr a'r Arolygiaeth a'r cynnydd a wnaed o ran cynigion ac argymhellion.

Mae dwy ran i'r Adroddiad hwn:
a) Gwybodaeth dracio'r Cyngor am gynigion y Rheoleiddiwr/Arolygiaeth ar gyfer gwella a'r argymhellion; a
b) Materion eraill sy'n ymwneud â'r Cyngor.

Y Sefyllfa Bresennol

a) Gwybodaeth dracio'r Cyngor am gynigion y Rheoleiddiwr/Arolygiaeth ar gyfer gwella a'r argymhellion

- Ffurflenni Ymateb Rheolwyr y Cyngor Diweddariad 2021/2022:
  - Ffurflenni Ymateb Rheolwyr - Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Cymdeithasol Oedolion (**Atodiad 1**)

b) Materion eraill sy'n ymwneud â'r Cyngor

ARGYMHELLIAD:	Ystyried ymatebion y Cyngor i Adroddiadau'r Rheoleiddiwr a'r Arolygiaeth
Rheswm dros yr Argymhelliad:	Sicrhau bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn gwybod am yr adroddiadau, y cynigion a'r gwaith sydd ar y gweill

Atodiadau:	**Atodiad 1: Ffurflenni Ymateb Rheolwyr - Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion**
Enw Cyswllt:	**Elin Prysor**
Teitl:	**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu a Swyddog Monitro**
Dyddiad yr Adroddiad:	**13/5/2022**

Adroddiad Cenedlaethol Cryno Archwilio Cymru ac Argymhellion ar gyfer Gwella

Awdurdod Rheoleiddio: Archwilio Cymru

Teitl yr Adroddiad: Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion

Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 2022

Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:

Cyfeirnod y Ddogfen: https://www.audit.wales/cy/publication/taliadau-uniongyrchol-ar-gyfer-gofal-cymdeithasol-i-oedolion

Adroddiad Cryno
Mae'r adroddiad hwn yn ystyried sut mae awdurdodau lleol yn darparu gwasanaeth Taliadau Uniongyrchol i oedolion gan archwilio eu heffaith a gwerth am arian. Mae **Atodiad 1** yn rhoi mwy o fanylion am ein dulliau archwilio. Mae **Arddangosyn 1** yn nodi ein priodoleddau o ran dulliau da o ymdrin â Thaliadau Uniongyrchol.

ARGYMHELLION:

Cyf	Cynnig ar gyfer Gwella / Argymhelliad	Ymateb y Cyngor
A1	Adolygu gwybodaeth i'r cyhoedd mewn trafodaeth gyda defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr i wneud yn siŵr ei bod yn glir a chryno ac yn egluro'n llawn yr hyn sydd angen iddynt ei wybod am Daliadau Uniongyrchol.	Cwblhawyd adolygu'r dogfennau a'r wybodaeth ers i'r gwasanaeth ddod yn un mewnol. Mae fforwm Gofalwyr wedi'i sefydlu a bydd dogfennau'n cael eu dwyn gerbron y fforwm i'w hadolygu a'u gwirio. Rydyn ni'n ystyried sefydlu mwy o fforymau. Adolygwyd gwefan Ceredigion ym mis Ebrill 22. Wrth wneud asesiad, bydd staff yn cyfeirio'r person i'r wefan

Cyf	Cynnig ar gyfer Gwella / Argymhelliad	Ymateb y Cyngor
		neu'n anfon gwybodaeth o'r wefan drwy'r post os oes angen. Pan fydd staff yn gwneud asesiad, cynigir Taliad Uniongyrchol bob amser wrth gynllunio canlyniadau gyda'r person.
A2	Gwneud gwaith hyrwyddo ychwanegol i annog cyfranogiad mewn Taliadau Uniongyrchol.	Mae'r cyfryngau cymdeithasol a chyfathrebiadau hyrwyddol ar wefan y Cyngor i hybu'r gwasanaeth Taliadau Uniongyrchol wedi bod yn llwyddiannus. Trefnwyd fforymau allanol hefyd h.y. fforwm gofalwyr i hyrwyddo Taliadau Uniongyrchol. Mae hyrwyddo'r gwasanaeth gyda thimau a gwasanaethau eraill yn fewnol yn dal i ddigwydd.
A3	Gwneud yn siŵr bod gwasanaethau eirioli yn cael eu hystyried ar y pwynt cyswllt cyntaf i roi cyngor annibynnol ar Daliadau Uniongyrchol i ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr.	Mae'r gwasanaeth Taliadau Mewnol wedi adolygu a diweddaru dogfennau a

Cyf	Cynnig ar gyfer Gwella / Argymhelliad	Ymateb y Cyngor
		gwybodaeth am y Gwasanaethau Eirioli. Mae'r asesiad cymesuredd newydd yn ei gwneud yn ofynnol i staff nodi'r angen am eiriolaeth ar y pwynt cyswllt cyntaf.
A4	Gwneud yn siŵr bod gwybodaeth am Daliadau Uniongyrchol ar gael wrth y 'drws blaen' i ofal cymdeithasol a'i bod yn rhan o'r drafodaeth gychwynnol ar yr opsiynau gofal sydd ar gael i ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr.	**Brysbennu Porth Gofal.** Mae'r llyfryn gwybodaeth am Daliadau Uniongyrchol a chynnwys y wefan wedi'u hadolygu a'u diweddaru. Crëwyd gwefan Taliadau Uniongyrchol newydd ac mae ar fin cael ei lansio. Mae pobl yn cael eu cyfeirio i wefan y cyngor. Os na allant gael mynediad i'r wefan caiff y wybodaeth ei hanfon gan y gweithiwr drwy'r post.
A5	Rhoi hyfforddiant i weithwyr cymdeithasol ar Daliadau Uniongyrchol i wneud yn siŵr eu bod deall eu potensial yn llawn ac yn teimlo'n hyderus yn eu hyrwyddo i ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr.	Nid oes hyfforddiant yn cael ei roi i staff gofal cymdeithasol ar hyn o bryd – ond mae hwn yn rhan o'r

Cyf	Cynnig ar gyfer Gwella / Argymhelliad	Ymateb y Cyngor
		weledigaeth ar gyfer Gydol Oes a Lles i'r dyfodol ac yn rhywbeth y byddwn yn ymroi i ystyried ei ddarparu wrth symud ymlaen. Mae gwybodaeth a hyfforddiant tîm ynghylch y gwasanaeth Taliadau Uniongyrchol yn rhan o broses sefydlu gweithwyr. Caiff gwasanaeth Taliadau Uniongyrchol ei drafod yn rheolaidd mewn cyfarfodydd tîm ac mae'r staff wedi cwblhau cyfarfod Arwyddion Diogelwch am y defnydd o Daliadau Uniongyrchol a meysydd i'w datblygu ymhellach.
A6	Cydweithio i ddatblygu Cynllun Cadw a Recriwtio ar y cyd ar gyfer Cynorthwywyr Personol.	Rydym yn gwbl ymrwymedig i weithio gyda Fforwm Taliadau Uniongyrchol Cymru gyfan ac wedi cydweithio gyda Sir Benfro a Sir Gâr yn ogystal â Gofal

Cyf	Cynnig ar gyfer Gwella / Argymhelliad	Ymateb y Cyngor
		Cymdeithasol Cymru.
A7	Egluro'r disgwyliadau polisi mewn iaith glir a hygyrch a nodi: • beth all Taliadau Uniongyrchol dalu amdano; • sut mae prosesau asesu ac ymgeisio, amserlenni a phrosesau adolygu yn gweithio; • sut fydd monitro taliadau unigol a'r gwaith papur sy'n ofynnol i wirio taliadau yn gweithio; • sut fydd arian heb ei ddefnyddio yn cael ei drin ac a oes modd ei fancio; a • sut i weinyddu a rheoli cyllidebau cyfun. Dylai gwybodaeth i'r cyhoedd gael ei hadolygu yn rheolaidd (o leiaf bob pythefnos) i wneud yn siŵr ei bod yn gweithio'n effeithiol a'i bod yn dal i fod yn berthnasol.	Mae dogfennau Taliadau Uniongyrchol, fel Llawlyfrau Gweithwyr, taflenni gwybodaeth a Chytundebau Taliadau Uniongyrchol wedi'u hadolygu, eu diweddaru a'u cyhoeddi ac yn rhoi sylw i'r pwyntiau hyn. Crëwyd atodlen adolygu i fonitro a chofnodi. Mae pob dogfen a adolygwyd wedi'i llunio mewn fformat hygyrch.
A8	Gwneud yn siŵr bod gan bobl sy'n derbyn gofal iechyd parhaus y GIG a Thaliadau Uniongyrchol lais cryfach, dewis a rheolaeth wrth wneud penderfyniadau.	Nid oes gan yr Awdurdod Lleol unrhyw un ar hyn o bryd â gofal iechyd parhaus a ariennir gan y GIG yn derbyn Taliad Uniongyrchol.
A9	Cydweithio i sefydlu system i werthuso Taliadau Uniongyrchol yn llawn sy'n cipio pob elfen o'r broses - gwybodaeth, hyrwyddo, asesu, rheoli a gwerthuso effaith ar les ac annibyniaeth.	Mae systemau yn eu lle i wneud yn siŵr bod ystadegau'n cael eu casglu ar lefel leol ac rydym yn croesawu'r cyfle i gydweithio gyda

Cyf	Cynnig ar gyfer Gwella / Argymhelliad	Ymateb y Cyngor
		Llywodraeth Cymru i ddarparu ystadegau ar lefel genedlaethol.
A10	Cyhoeddi gwybodaeth am berfformiad yn flynyddol ar gyfer pob elfen o Daliadau Uniongyrchol i wneud yn siŵr y ceir golwg ar y system gyfan wrth gyflenwi a gweld eu heffaith i gefnogi gwelliant.	Mae Adroddiad y Cyfarwyddwyr yn cynnwys ystadegau lleol a gasglwyd yn lleol. Cyflwynodd y gwasanaeth Taliadau Uniongyrchol adroddiad blynyddol i'r Bwrdd Rhaglen Gydol Oed a Lles ar ddiwedd y flwyddyn. Rydym yn croesawu'r cyfle i gydweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddarparu ystadegau ar lefel genedlaethol.